# Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen

# Canfyddiadau allweddol ynghylch yr Amgylchedd (Dan Do/Awyr Agored)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb o'r Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 53/2014

Mae'r Cyfnod Sylfaen (a gyflwynwyd yn 2008) yn cynnig cwricwlwm o ddysgu trwy brofiad, sy'n briodol o ran datblygiad plant 3 i 7 oed yng Nghymru. Nod y gwerthusiad annibynnol (dan arweiniad WISERD), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yw gwerthuso pa mor dda y caiff ei roi ar waith, beth fu ei effaith, a ffyrdd o'i wella. Mae'r gwerthusiad tair blynedd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cymysg ar raddfa genedlaethol a lleol.

Dyma un o bum papur sy'n canolbwyntio ar **ymarfer**. Mae'n cwmpasu 239 o arsylwadau ar ddosbarthiadau a lleoliadau, 341 o gyfweliadau ag ymarferwyr, 604 o ymatebion gan ysgolion a lleoliadau i arolwg, 37 cyfweliad ag Awdurdodau Lleol a phedwar cyfweliad â lleoliadau nas cynhelir.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Canfyddiadau Allweddol**

- Datgelwyd o'r arsylwadau astudiaethau bod defnydd gweithgar o **barthau dysgu amrywiol** a niferus wedi arwain i blant fod yn bod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn **gweithgareddau archwiliol** a **chyfranogol.**
- Anaml iawn yr oedd yr **amgylchedd dysgu awyr agored** yn cael ei ddefnyddio fel 'estyniad o'r ystafell ddosbarth' ond roedd mwy o leoliadau nas cynhelir a ariennir yn defnyddio'r awyr agored o gymharu â Blynyddoedd 1 a 2.
- Roedd **rhwystrau cyffredin** rhag datblygu amgylchedd addas i'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys newidiadau strwythurol, cyllid ar gyfer adnoddau, mynediad uniongyrchol i'r awyr agored a materion yn perthyn i safleoedd penodol (e.e. lleoliadau nas cynhelir a ariennir sy'n gorfod rhoi popeth o'r neilltu).
- Ar gyfartaledd, gwariodd **ysgolion** £15,000 ar ddatblygu eu hamgylchedd **dan do** a £18,000 ar ddatblygu eu hamgylchedd **awyr agored**, tra bod **lleoliadau nas cynhelir a ariennir** wedi gwario £3,000 ar gyfartaledd ar amgylcheddau **dan do** a £3,500 ar amgylcheddau **awyr agored**. Y rhai a ddywedodd iddynt weld y newid mwyaf i'w hamgylchedd wariodd y mwyaf o arian.

**Canfyddiadau Allweddol Pellach**

Awgrymai ymatebion i'r arolwg cenedlaethol o benaethiaid, arweinwyr Cyfnod Sylfaen ac arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir fod y **rhan fwyaf o ysgolion wedi gweld newid mawr i'w hamgylchedd dan do ac awyr agored** o ganlyniad i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, gyda **mwyafrif y lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn datgan eu bod wedi gweld llai o newid.**

**Cyllid** yw'r hyn y byddai'r rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn ei newid am y Cyfnod Sylfaen; dywedodd llawer o ymarferwyr fod **datblygu eu hardaloedd awyr agored** yn parhau o hyd.

Er bod yr addysgeg yn ymddangos yn fwyaf tebyg i'r hyn yr oedd lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn ei weithredu cyn y Cyfnod Sylfaen, roedd **lleoliadau nas cynhelir a ariennir sy'n gorfod rhoi popeth o'r neilltu**[1] yn canfod fod codi arian ar gyfer adnoddau a lle mewn lleoliadau anymarferol yn heriau parhaus.

Dywedodd ymgynghorwyr y blynyddoedd cynnar a swyddogion cymorth hyfforddiant eu bod wedi **gweld mwy o ddefnydd o'r awyr agored**, yn gyffredinol, ers gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Dywedodd rhai bod ymarferwyr yn gwneud defnydd gwell o'u gofod, bu newydd cyffredinol yn yr amgylchedd a bod adnoddau gwell ar gael.

Roedd y **newidiadau mwyaf cyffredin i'r awyr agored** a gofnodwyd yn cynnwys mynediad, adnoddau, creu amgylchedd bob tywydd, datblygu'r amgylchedd a defnyddio mesurau cymunedol megis ysgolion coedwig ac ymweliadau â'r parc ble roedd diffyg gofod awyr agored.

Roedd y **newidiadau mwyaf cyffredin dan do** a gofnodwyd yn cynnwys creu ardaloedd dysgu, adnoddau, dodrefn, ac ad-drefnu ystafelloedd dosbarth.

Roedd plant yn fwy tebygol o gael eu **harsylwi yn yr awyr agored**

[1] Lle nad oes gan y lleoliad breswylfan yn eu man addysgu a dysgu, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt 'roi eu hadnoddau o'r neilltu' ar ddiwedd pob sesiwn/dydd.

gydag ymarferwr ychwanegol, neu ar eu pen eu hunain, yn hytrach nag ym mhresenoldeb athro neu athrawes.

Adroddodd 75% o **ymarferwyr** eu bod yn defnyddio'r amgylchedd dysgu awyr agored *o leiaf* 2/3 gwaith yr wythnos, gyda 34% yn adrodd eu bod yn ei ddefnyddio **bob dydd** (er bod yr amser o'r flwyddyn yn effeithio ar ba mor aml y defnyddir yr amgylchedd dysgu awyr agored).

Cofnodwyd **defnydd cytbwys** o weithgareddau â Ffocws, Parhaus ac Estynedig ar gyfer arsylwadau awyr agored.

**Datgelodd teithiau o amgylch ystafelloedd dosbarth blwyddyn 1** fod plant yn mwynhau dysgu'n annibynnol a'u bod yn fwy gwybodus am eu hamgylchedd dysgu pan fyddent yn cael mwy o gyfleoedd a dewis mewn amrywiaeth o barthau dysgu cyfoethog a diddorol.

Dywedodd mwyafrif y plant a gymerodd ran yn y teithiau o amgylch ystafelloedd dosbarth blwyddyn 1 mai **yn anaml yr oeddent yn gwneud unrhyw ddysgu yn yr awyr agored[2].**

Roedd mwy o **barthau dysgu** mewn ystafelloedd dosbarth Cyfnod Sylfaen oedran cymysg nag mewn unrhyw grŵp blwyddyn arall. Er bod o leiaf 4 parth dysgu ym mwyafrif yr ystafelloedd dosbarth, pwysleisiodd y portreadau byr yn enghreifftiau'r ysgolion astudiaeth achos **mai'r hyn sy'n bwysicach yw'r ffordd y caiff parthau dysgu eu defnyddio, ac nid eu presenoldeb yn unig.**

Yn gyffredinol, roedd gan ystafelloedd dosbarth a oedd wedi gweithredu'r Cyfnod Sylfaen i raddau uwch **amgylcheddau mwy deniadol yn weledol** lle câi gwaith plant ei arddangos.

Roedd **perthynas gadarn** rhwng graddfa mynediad plant at **amgylcheddau awyr agored** a'r plant yn bod yn **weithgar yn gorfforol, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol ac archwiliol**.

[2] Er, cynhaliwyd y teithiau ym mis Ionawr, a allai fod wedi effeithio ar ymateb y plant.

Awduron: Mirain Rhys, Samuel
Waldron, Chris Taylor (Prifysgol
Caerdydd)
2 Mehefin 2014
ISBN:978-1-4734-1476-1